# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022
# drwy Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Vanessa | Allis | VA | Llywodraeth Cymru |
| Sedeek | Ameer | SA | Llywodraeth Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Fiona | Clay-Poole | FCP | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Delyth | Davies | DD | Cyfieithydd |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Sir Ddinbych |
| Matt J | Evans | ME | Llywodraeth Cymru |
| James | Falkner | JF | Llywodraeth Cymru (Cofnodwr) |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Faye | Gracey | FG | Llywodraeth Cymru |
| Steph | Harries | SH | Llywodraeth Cymru |
| Eleri | James | EJ | Comisiynydd y Gymraeg |
| Leanne | John | LJ | Cyngor Abertawe |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Steve | King | SK | Dinas a Chyngor Abertawe |
| Morgan | Lowden | ML | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Florence | Milne | FM | Llywodraeth Cymru (Cofnodwr) |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Adele | Nethercott | AN | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Larissa | Nixon | LN | Llywodraeth Cymru |
| Llio | Owen | LO | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Perry | SP | Cyngor Sir y Fflint |
| Rhys | Powell | RP | GIG Cymru |
| Jonathan | Radcliffe | JR | Chwaraeon Cymru |
| Hayley | Randall | HR | Data Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Jacob | Squires | JS | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Eve | Watkinson | EW | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Alwyn | Williams | AW | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

**Siaradwyr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Katy | Addison | FG | Llywodraeth Cymru |
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Hannah | Thomas | HT | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Henry | Beevor | HB | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Tess | Carter | TC | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Gerald | Williams | GW | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Gwyneth | Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Jo | Davies | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Shaun | Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Karen | Hawkes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Steph | Howarth | Llywodraeth Cymru |
| Bea | Jeffries | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Steven | Marshall | Llywodraeth Cymru |
| Neil | Townsend | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| **1.** | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau** – Sue Leake, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Croesawodd SL bawb i'r cyfarfod. Gweler yr ymddiheuriadau uchod.<br><br>Mae cyfieithu ar y pryd ar gael drwy'r rhif ffôn a anfonwyd gyda'r gwahoddiad i'r cyfarfod ac yn y sgwrs.<br><br>Caiff pob cyflwyniad ei rannu ar ddiwedd y cyfarfod. | |
| **2.** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf, diweddariad ar bwyntiau gweithredu, diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru, diweddariad ar ddemograffeg a diweddariad Data Cymru** – Sue Leake, Llywodraeth Cymru | |
| | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf:**<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.<br><br>**Diweddariad ar gamau gweithredu:**<br>Mae mwyafrif y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Anfonwyd gwybodaeth am ffiniau wardiau.<br>O ran trafodaeth SYG ar ddata'r Cyfrifiad – cafodd cyfarfod arbennig ei drefnu a'i gynnal ar 21 Gorffennaf.<br><br>Ymchwil defnyddwyr StatsCymru - diolchodd SL i'r rhai a wirfoddolodd i helpu â'r ymchwil. Gwirfoddolodd JE a bydd SL yn trosglwyddo'r manylion i StatsCymru. | SL i drosglwyddo manylion JE ynghylch gwirfoddoli ar gyfer ymchwil StatsCymru. |
| | **Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru:**<br>Nid yw dangosfwrdd COVID-19 yn parhau mwyach – mis Awst oedd y mis diwethaf a ddiweddarwyd.<br><br>Roedd Steph Howarth am grybwyll grŵp defnyddwyr ystadegau newydd ar gyfer ystadegau economaidd. Bydd Steve King yn cynrychioli ALlau.<br>Gallwch fynegi diddordeb drwy e-bostio SK (steve.king@swansea.gov.uk) os hoffech weld y papurau. Caiff cyfarfod cyntaf y grŵp ei gynnal ar 11 Hydref.<br><br>Tynnodd SL sylw at gyhoeddi adroddiad Llesiant Cymru (29 Medi) a'r adroddiad Llesiant Plant a Phobl Ifanc. Roedd yr adroddiad llesiant yn cynnwys dangosyddion cenedlaethol newydd am y tro cyntaf e.e. ar fforddiadwyedd tai a gwaith teg. Mae SL yn croesawu unrhyw adborth ar yr adroddiadau.<br><br>Wedi cyfeirio yn y diweddariad chwarterol at y pethau rydym wedi bod yn eu gwneud ag ystadegau Wcráin yn ogystal â chostau byw.<br><br>Nododd JR y caiff canlyniadau arolwg chwaraeon ysgol 2022 eu cyhoeddi am 9:30 ar 11 Hydref.<br><br>Mae SL a'r tîm yn gweithio ar ystadegau manylach ar dlodi tanwydd a gaiff eu rhyddhau ddechrau mis Tachwedd. | Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd, e-bostiwch SK.<br><br>SK i ychwanegu JE, LWM a NWV at y rhestr o bobl sydd â diddordeb yn y Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd yn ogystal ag enwau unrhyw un arall fydd yn anfon e-bost. |
| | **Diweddariad ar y Boblogaeth a Demograffeg:**<br><br>Nodwyd y diweddariad ar y boblogaeth a demograffeg. Yn dilyn cwestiynau am amcangyfrifon poblogaeth, nododd MP y dylai data 2021 fod ar gael ym mis Rhagfyr. Caiff amcangyfrifon sydd wedi'u hailsylfaenu ar lefel genedlaethol eu rhyddhau ar ddechrau'r flwyddyn nesaf a chaiff amcangyfrifon ar lefel awdurdodau lleol eu rhyddhau yn y gwanwyn.<br><br>Gofynnodd LWM a fyddai data ar feddygon teulu ar gael ar lefel cod post. Bydd SS yn adrodd yn ôl ar hyn. | SS i adrodd yn ôl i LWM ynghylch a oes data ar feddygon teulu ar gael ar lefel cod post. |
| | **Diweddariad Data Cymru:**<br><br>Tynnodd SS sylw at gyfres o ddangosfyrddau sy'n cael eu llunio a rhai sydd wedi'u rhyddhau yn barod (llesiant, Golwg ar dlodi). Mae'n debygol y caiff dangosfwrdd o broffiliau ardaloedd lleol ei gyhoeddi'n fuan. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Lluniwyd adroddiad yn ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi mynd yn fyw heddiw. Rhai gweminarau sydd i ddod: Deall Data Perfformiad ar 20 Hydref a bydd yr Arolwg Ordnans yn rhoi sgwrs ar gynhyrchion daearyddol gwahanol ar 3 Tachwedd.<br><br>Mae cymunedau ymarfer wedi cael eu sefydlu'n ddiweddar ar gyfer Power BI a gwella mynediad at ddata. Hyb ar-lein yw hwn lle gall pobl ofyn cwestiynau a thrafod y pynciau. Mae dolen yn y papur ac mae modd ei gyrchu hefyd drwy wefan Data Cymru.<br><br>Gofynnodd VD i SS a fydd proffiliau wardiau yn seiliedig ar wardiau newydd<br>Atebodd SS eu bod yn seiliedig ar y ffiniau wardiau newydd. Bydd data cychwynnol yn seiliedig ar y data a ryddhawyd yn flaenorol.<br><br>Cododd SL y mater a drafodwyd yn flaenorol ynghylch enwau yn naearyddiaeth y Cyfrifiad. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn y flwyddyn newydd gan fod Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol.<br><br>Gofynnodd VD a oedd unrhyw un wedi llwyddo i lawrlwytho data wardiau o borth daearyddiaeth SYG am eu bod wedi bod yn rhy fawr i'w lawrlwytho – roedd PJ wedi llwyddo a bydd yn gweld a oes rhywbeth y gall ei wneud i helpu ac yn cysylltu â VD. Bydd GW hefyd yn gofyn am arweiniad gan Andy Bates. | PJ i gysylltu â VD gyda datrysiad posibl i lawrlwytho data wardiau ar gyfer ardaloedd. Bydd GW yn gofyn am arweiniad hefyd. |
| **3.** | **Diweddariad ar y Cyfrifiad** – Gerald Williams, Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan GW ar ddiweddariad y Cyfrifiad.<br><br>**Pwyntiau allweddol:**<br>- Mae SYG wedi wynebu rhai heriau ac wedi newid trefn y pynciau gan ddechrau gyda demograffeg.<br>- Mae EILR wedi cael ei rannu fel y gellir trin y Gymraeg fel pwnc ar wahân.<br>- Bydd crynodebau pwnc ar gael ar wefan SYG. Bydd defnyddwyr yn gallu gweld ymholiadau rhagddiffiniedig (e.e. newid ystodau oedran)<br>- Gweithio i baratoi sleidiau ac arddangosiadau er mwyn dangos i bobl sut yn union i gael gafael ar y data y maent yn chwilio amdanynt.<br>- Trefn gyfieithu: Bydd gan SYG fersiwn PDF o'r holl fwletinau ystadegau yn Gymraeg a bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o fwletinau ystadegau ar gyfer Cymru ar ffurf HTML. Bydd y bwletin ar y Gymraeg ar gael yn llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan SYG.<br>- Gallwch gofrestru i gael diweddariadau e-bost ar GovDelivery. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Trafodaeth:**<br><br>Gan fod llawer o aelodau'r grŵp hwn yn arbenigwyr, gofynnodd VD iddynt sut maent yn cael yr wybodaeth sylfaenol. Dywedodd GW y bydd pob set ddata ar gael i'w lawrlwytho a fydd yn golygu y gallwch lawrlwytho'r data crai. Cantabular fydd yn cymryd y data crai, nid SASPAC. Bydd Nomis ar gael o hyd o'r datganiad cyntaf.<br><br>Gofynnodd JE a yw taenlenni data yn cael eu cyfieithu.<br><br>Dywedodd GW na all SYG gyfieithu unrhyw setiau data a bydd GW yn rhoi adborth ar sut y gall SYG lunio mwy o setiau data yn Gymraeg.<br><br>Gofynnodd NWV a gaiff data Cyfrifiad 2011 eu hailgyhoeddi yn seiliedig ar y ffiniau wardiau newydd.<br><br>Atebodd GW y byddai'n gwneud hynny all-lein ac yn adrodd yn ôl â chyngor ar y cwestiwn hwnnw.<br><br>Cyfeiriodd LR at bryder bod dyddiadau rhyddhau yn hwyrach na'r tro diwethaf. Mae SYG wedi diweddaru'r calendr rhyddhau ac mae wedi lleihau i ffenestr o ddau fis – caiff pob crynodeb pwnc ei gyhoeddi dros y tri mis nesaf. | GW i adrodd yn ôl ynghylch a gaiff data Cyfrifiad 2011 eu hatgynhyrchu ar gyfer ffiniau wardiau newydd 2022. |
| **4.** | **Data'r Cyfrifiad yn SAIL** – Katy Addison, Llywodraeth Cymru | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan KA ar Ddata'r Cyfrifiad yn SAIL.<br><br>**Pwyntiau allweddol:**<br><br>- Mae rhaglenni ymchwil yn seiliedig ar feysydd thematig a bennir gan Lywodraeth Cymru, e.e. newid yn yr hinsawdd ac ati.<br>- Caiff data SAIL eu trefnu ar lefel unigolion, aelwydydd, gweithleoedd.<br>- Gellir cyrchu cronfeydd data o fewn SAIL sy'n ddienw yn barod ac yna gellir eu defnyddio i lunio ymchwil er mwyn llywio gwaith llunio polisïau.<br>- Enghraifft: Rhaglen ADARC a all gysylltu setiau data o fewn SAIL ar y tair lefel.<br>- Trafodaeth ynghylch pryd bydd datganiadau'r Cyfrifiad ar gael gan SYG – mae cynlluniau i gynnwys y set ddata ar y Gymraeg yn SAIL ddiwedd 2022.<br><br>Os oes gennych unrhyw syniadau am sut y gellid defnyddio data cysylltiedig yn eich meysydd, cysylltwch drwy'r blwch post ymholiadau cyffredinol neu drwy anfon e-bost at KA neu FG. | |

| 5. | **Rhyddhau data Cyfrifiad 2021 a datganiadau arfaethedig yn y dyfodol gan SYG a Llywodraeth Cymru** – Martin Parry, Llywodraeth Cymru | |
|---|---|---|
| | Cafwyd cyflwyniad gan Martin.<br><br>**Pwyntiau allweddol:**<br>- Trafodwyd crynodebau pwnc – caiff crynodeb y Gymraeg ei gyhoeddi ar wahân i'r crynodeb Grwpiau Ethnig, Hunaniaeth Genedlaethol, Iaith a Chrefydd (EILR).<br>- Bydd SYG yn cyhoeddi o leiaf un bwletin ar gyfer pob pwnc ac yna bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi un bwletin ar gyfer pob maes pwnc gan ganolbwyntio ar y data ar gyfer Cymru, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>- Bydd pawb yn cael gwybod am y dyddiad cyhoeddi tua thair neu bedair wythnos ymlaen llaw.<br>- Y bwriad yw dechrau'r dadansoddiad amlamryweb cyntaf o ddata'r Cyfrifiad ddechrau blwyddyn nesaf.<br><br>Anogir adborth ar y pynciau yr hoffai pobl eu blaenoriaethu ac a ddylid defnyddio StatsCymru.<br><br>**Trafodaeth:**<br>Gofynnodd LR pryd y bydd data ar y Gymraeg yn cael eu rhyddhau. Dywedodd MP bod disgwyl i'r data gael eu rhyddhau ym mis Rhagfyr 2022 neu fis Ionawr 2023.<br><br>Dywedodd LR y byddai'n ddefnyddiol cael ystadegau ar lefel Cymru ac ar lefel sirol.<br><br>Gofynnodd JE sut mae esbonio gwahaniaethau yn nata'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021 a'r effaith y gallai hyn ei chael ar nodweddion. Dywedodd JE hefyd y byddai'n ddefnyddiol cysylltu pethau gyda phethau y mae angen eu cyhoeddi mewn asesiadau llesiant.<br><br>MP yn hapus i sicrhau y gall y data y maent yn eu cyhoeddi gefnogi'r asesiadau llesiant. Dal i weithio ar y gwahaniaethau yn y ffigurau poblogaeth a cheisio deall sut i'w cyflwyno a'r effaith a gânt ar nodweddion.<br><br>GW yn crybwyll y broses sicrhau ansawdd cyn y canlyniadau cyntaf a'u bod wedi ymgysylltu â sawl awdurdod lleol ar hyd a lled Cymru. Mae SYG yn deall yr effaith a gafodd hyn ar nifer o ALlau, felly byddai'n well ganddynt pe bai'n cael ei reoli fesul achos gan fod pob ALl yn wahanol. Gofynnir i aelodau roi eu manylion cyswllt os hoffent i SYG ymgysylltu â nhw ynghylch hyn.<br><br>Soniodd JE fod angen i bawb wybod beth sy'n digwydd gydag ALlau gwahanol gan fod angen persbectif ehangach yn aml. | Awgrymodd SL y dylid cael sgwrs y tu allan i'r cyfarfod ynghylch beth sydd ei angen ar JE mewn asesiadau llesiant a'r hyn y dylem ei ddarparu felly. |

| | | |
|---|---|---|
| | Awgrymwyd y dylid dewis ALl â phryderon penodol a chysylltu â SYG ac yna gall pawb roi adborth ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Gofynnodd LWM a fyddai modd cael rhagolygon ar gyfer y data lefel isel sy'n cael eu rhyddhau. Soniodd hefyd fod rhai pryderon ynghylch y ffordd y mae rhai data wedi cael eu categoreiddio, felly hoffai gael rhagolwg er mwyn gwirio'r data cyn iddynt gael eu cyhoeddi.<br>Dywed GW na ellir rhyddhau unrhyw ddata o'r Cyfrifiad yn gynnar ac eithrio drwy'r broses sicrhau ansawdd. Os bydd y pryderon ynghylch hyn yn parhau, gallai aelodau gysylltu â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau.<br><br>Yn sgil y pandemig a'r ffaith bod cyfradd ymateb uwch, mynegodd VD bryder y gall fod yn anodd esbonio'r gwahaniaethau mawr rhwng Cyfrifiad 2021 a Chyfrifiad 2011. Gofynnodd sut y gallai ystadegwyr Llywodraeth Cymru helpu â'r sefyllfa hon ac awgrymodd y dylai MP (neu rywun o'i dîm) fod yn bresennol yn y cyfarfodydd rhwng ALlau unigol a SYG fel bod gan rywun drosolwg o'r hyn sy'n digwydd ym mhob ALl.<br><br>Os yw'r ffigurau yn anodd eu hesbonio, roedd pryder cyffredinol y gallai hynny niweidio enw da'r Cyfrifiad. Mae LWM, VD a JE yn hapus i drafod hyn. Dywedodd PJ y gallai Blaenau Gwent fod yn awyddus i gymryd rhan hefyd.<br><br>LWM i roi gwybod i MP pryd y cynhelir y cyfarfodydd rhwng Gwynedd a SYG a ph'un a all rhywun fod yn bresennol yn y cyfarfodydd. Bydd MP yn ystyried beth y gellir ei wneud fel trosolwg â'r holl ALlau. | SL i hwyluso trafodaethau SYG ag ALlau perthnasol am ddata'r Cyfrifiad.<br><br>LWM i roi gwybod i MP pryd y cynhelir y cyfarfodydd rhwng Cyngor Gwynedd a SYG ynghylch data'r Cyfrifiad. |
| **6.** | **Hygyrchedd Allbynnau Ystadegol** - Hannah Thomas, Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan HT ar hygyrchedd allbynnau ystadegol.<br><br>**Pwyntiau Allweddol:**<br>- Cafwyd sesiwn debyg yr wythnos diwethaf ac mae i'w gweld drwy ddilyn y dolenni ar eu gwefan.<br>- Teitlau siartiau i ymddangos yng nghorff y testun, nid yn y ddelwedd.<br>- Cynnwys testun amgen yng nghorff y testun.<br>- Llinellau wedi'u labelu yn well nag allwedd.<br><br>**Trafodaeth:**<br><br>JE – gofynnodd i HT ddychwelyd a siarad am hygyrchedd tablau. Cyfeiriodd HT at ganllawiau ar dablau ar y wefan. Mae arddangosiad ar daenlenni ar gael ar y wefan.<br>https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/support/ | |

| 7. | **Mewnwelediadau ystadegol ar Gostau byw ac amddifadedd: diweddariad** – Tess Carter, Swyddfa Ystadegau Gwladol / Henry Beevor, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nia Jones, Llywodraeth Cymru | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd HB ddiweddariad ar y sefyllfa ers y cyflwyniad diwethaf ym mis Mehefin.<br><br>**Pwyntiau allweddol:**<br>- Chwyddiant uchaf a gofnodwyd ers mis Rhagfyr 1990.<br>- Lleihad o 14c ym mhris petrol rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 22.<br>- Banc Lloegr wedi codi cyfraddau llog – ar eu huchaf ers argyfwng ariannol 2008.<br>- Oedolion yn cymryd camau i wario llai.<br>- Adroddiad mewnwelediadau busnes ac effeithiau'r economi – rhyddhau heddiw.<br><br>Cynnal digwyddiad ar gostau byw ar 25 Hydref 9:30 – 3:00pm. Gallwch fynd i'r digwyddiad yn bersonol neu'n rhithwir.<br><br>**Trafodaeth:**<br><br>Mae'n bwysig cael adborth ar y mewnwelediadau. Mae SYG yn gwneud mwy a mwy gyda data Arolwg OPN i ddarparu dadansoddiad mwy perthnasol o'r data. Byddent yn gwerthfawrogi arweiniad ynghylch yr hyn y byddai defnyddwyr yn hoffi gweld SYG yn ei wneud neu'r hyn sy'n bwysig yn eu barn nhw.<br><br>Hoffai JE weld y gwahaniaeth rhwng pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Dywedodd HB ei bod yn anodd nodi'r effaith mewn ardaloedd gwledig gan nad oes llawer o ddata ar gael ar hyn o bryd - bydd yn ymchwilio i wneud mwy o waith yn y maes hwn.<br><br>Soniodd LR hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael y data ar lefel Cymru yn ogystal â lefel y DU.<br><br>Cyfeiriodd SL at dlodi tanwydd – cafodd gwybodaeth am dlodi tanwydd ym mis Hydref 21 ei chyhoeddi ym mis Ebrill. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i lunio mwy o wybodaeth am hynny gan gydnabod mai'r rheini a gafodd eu heffeithio yn 2021 yw'r rhai sy'n teimlo'r effaith fwyaf nawr hefyd. Dylai hwnnw fod yn barod ddechrau mis Tachwedd. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud ar ddangosfwrdd tlodi tanwydd i'w ryddhau o bosibl ar ddiwedd y flwyddyn neu'n gynnar y flwyddyn nesaf.<br><br>Gallwch gysylltu â'r tîm yn coordination@ons.gov.uk<br><br>Cyflwynodd NJ ddadansoddiad o amddifadedd hirsefydlog.<br><br>**Pwyntiau allweddol:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Cysylltiad rhwng amddifadedd hirsefydlog a chostau byw gan ei fod yn debygol o effeithio fwyaf ar y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.<br>- Lluniwyd dadansoddiad ar gyfer dangosyddion yn unol â chategorïau amddifadedd hirsefydlog.<br>- Er gwybodaeth, ymhlith yr allbynnau MALIC a ryddhawyd yn ddiweddar mae erthygl ar glystyrau meddygon teulu a gofal sylfaenol, amddifadedd mewn perthynas â phlant a chanllaw ar ddadansoddi data dangosyddion.<br>- Os oes gennych ddiddordeb gweld pa allbynnau eraill sydd wedi cael eu rhyddhau, mae dolenni yn y sleidiau.<br>- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) nesaf yn 2024 neu 2025 o bosibl. | |
| **8.** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Diolchodd SL i bawb a roddodd gyflwyniad.<br><br>Trafodwyd fformat y cyfarfod nesaf:<br>- Nid oedd fawr o ddiddordeb mewn cyfarfod hybrid - cyfarfod ar-lein oedd y dewis<br><br>Awgrymodd JE y gallai un cyfarfod y flwyddyn fod yn gyfarfod hybrid ond ei bod yn annhebygol y caiff opsiwn hybrid ei gynnig ar gyfer pob cyfarfod.<br><br>Os dewisir y llwybr hybrid, sicrhau un lleoliad yn y de ac un yn y gogledd.<br><br>Pynciau ar gyfer y cyfarfod nesaf:<br>- Awgrymodd NWV eitem i egluro ble mae SYG arni o ran llunio data ar incwm aelwydydd<br>- Hoffai GM gael trafodaeth ar leoleiddio data ar gostau byw<br>- Awgrymodd JE y dylai rhywun o'r Cyfrifiad fynychu pob cyfarfod<br>- Awgrymodd JE hefyd y dylai rhywun ddod i siarad am sut y maent yn delio ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn<br>- Hoffai GM gael data lleol mwy penodol ar gostau byw. Sut i gael data lleol o ffynonellau data sy'n bodoli eisoes. Rhannwch os oes unrhyw un wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn.<br>- Rhannwch yr hyn y mae pobl yn gweithio arno.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 2 Chwefror 2023. | |

| | **Camau gweithredu** | |
|---|---|---|
| 1 | SL i drosglwyddo manylion JE ynghylch gwirfoddoli ar gyfer ymchwil StatsCymru. | SL |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd, e-bostiwch SK. | Pob aelod |
| 3 | SK i ychwanegu JE, LWM a NWV at y rhestr o bobl sydd â diddordeb yn y Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd yn ogystal ag enwau unrhyw un arall fydd yn anfon e-bost. | SK |
| 4 | SS i adrodd yn ôl i LWM ynghylch a oes data ar feddygon teulu ar gael ar lefel cod post. | SS |
| 5 | PJ i gysylltu â VD gyda datrysiad posibl i lawrlwytho data wardiau ar gyfer ardaloedd. Bydd GW yn gofyn am arweiniad hefyd. | PJ |
| 6 | GW i adrodd yn ôl ynghylch a gaiff data Cyfrifiad 2011 eu hatgynhyrchu ar gyfer ffiniau wardiau newydd 2022 | GW |
| 7 | Awgrymodd SL y dylid cael sgwrs y tu allan i'r cyfarfod ynghylch beth sydd ei angen ar JE mewn asesiadau llesiant a'r hyn y dylem ei ddarparu felly. | SL / JE / MP |
| 8 | SL i hwyluso trafodaethau SYG ag ALlau perthnasol am ddata'r Cyfrifiad. | SL |
| 9 | LWM i roi gwybod i MP pryd y cynhelir y cyfarfodydd rhwng Cyngor Gwynedd a SYG ynghylch data'r Cyfrifiad | LWM |